# Llysgenhadon Ifanc Gogledd Cymru
Rhaglen

## NODIADAU CANLLAW

**Darllenwch yn ofalus cyn llenwi eich ffurflen gais.**

### BETH YDY LLYSGENNAD IFANC?

Rôl y Llysgennad Ifanc ydy rhoi llais i ystod amrywiol o bobl ifanc ledled Gogledd Cymru. Gwneir hyn drwy eu cynorthwyo i gael eu barn wedi'i chlywed o fewn plismona. Bydd yn creu llwyfan i bobl ifanc ymchwilio i gynllunio strategol.

Drwy gydweithrediad cyfoedion, bydd Llysgenhadon Ifanc yn gallu mynegi eu hunain yn rhydd a siarad ar ran pobl ifanc eraill yn eu cymuned.

### PWY ALL YMUNO?

Rydym yn chwilio am gyfranogwyr 16-24 oed sy'n byw yng Ngogledd Cymru ar hyn o bryd.

Mae pobl ifanc weithiau'n cael eu portreadu'n anffafriol yn y cyfryngau. Rydym felly'n awyddus clywed gan bobl sy'n angerddol ac uchelgeisiol i wneud gwahaniaeth gwirioneddol i bobl ifanc ledled Gogledd Cymru, a fydd wedi ymroi i'r prosiect ac yn barod i wneud yr holl weithgareddau sydd ynghlwm. Rydym hefyd yn awyddus iawn sicrhau fod y Rhaglen Llysgenhadon Ifanc yn cynnwys grŵp amrywiol o bobl ifanc sy'n adlewyrchu cyfansoddiad y boblogaeth leol, gan gynnwys y bobl hynny sydd â phrofiad uniongyrchol o'r heddlu a'r system cyfiawnder.

Nid ydy cyswllt blaenorol gyda'r heddlu neu euogfarn yn rhwystr i ymgeisio - nid ydy'r rôl hon yn amodol ar fetio heddlu / gwiriad DBS.

### DIBEN Y RÔL

- Gallu gweithio ar y cyd gyda Heddlu Gogledd Cymru fel a ganlyn:
    - Cynghori Heddlu Gogledd Cymru mewn materion plismona cymunedau o ran pobl ifanc.
    - Gwrando, adlewyrchu a ffafrio profiad amrywiol yn aml pobl ifanc o fewn Gogledd Cymru.
    - Cyfrannu eich profiadau eich hun i'r Grŵp ehangach.
    - Gweithio'n adeiladol fel rhan o dîm er mwyn cynghori'r heddlu ac asiantaethau eraill.

## PRIF DDYLETSWYDDAU

Cyflwyno eich profiad a'ch gwybodaeth bersonol er mwyn cynorthwyo Heddlu Gogledd Cymru.

- Mynychu cyfarfodydd bob yn ail fis (Hybrid - wyneb yn wyneb ac ar-lein) gydag uwch swyddogion o Heddlu Gogledd Cymru.
- Bod yn gyfrifol am gael safbwyntiau pobl ifanc eraill yn eich ardal drwy ymgysylltu ac ymgynghori. Rhoddir cymorth er mwyn cynnal yr ymgynghoriad hwn rhwng cyfoedion.
- Cymryd rhan mewn craffu'r defnydd o rymoedd yr heddlu (stopio a chwilio, defnyddio grym, arestiadau); cwynion a digwyddiadau sy'n cynnwys pobl ifanc, rhoi adborth a gwneud argymhellion i Heddlu Gogledd Cymru.
- Bydd gweithio fel tîm o Lysgenhadon Ifanc yn cynorthwyo Heddlu Gogledd Cymru wrth gynllunio digwyddiadau a mentrau ymgysylltu ieuenctid. Cewch eich gwahodd i gynorthwyo i gynnal y digwyddiadau hyn pan mae'n bosibl, ar yr amod nad yw'n effeithio'n andwyol ar ymrwymiadau ysgol/coleg/gwaith.
- Cael llais mewn gwneud polisi sy'n cynnwys a/neu'n effeithio pobl ifanc.
- Cael llais yn y broses recriwtio a hyfforddiant ar gyfer Swyddogion Heddlu.
- Rhoi mewnbynnau i swyddogion heddlu newydd ynghylch ymgysylltu ag ieuenctid a chanfyddiadau'r heddlu. Mae hyn yn cynnwys rhai a all gynnig profiad byw o ryngweithiadau gyda'r heddlu a'r broses cyfiawnder troseddol.
- Cyfrannu at greu adroddiadau ysgrifenedig pan mae angen.
- Ymgymryd â chyfrannu at ymchwil pan mae angen.

## SUT FYDDAF YN ELWA O FOD YN RHAN O'R RHAGLEN LLYSGENHADON IFANC?

- **Ymdrin â materion yn uniongyrchol gydag uwch swyddogion heddlu a phartneriaid allweddol:** Cynorthwywch nhw ddeall sut mae pobl ifanc yn eich ardal yn meddwl am heddlu a throsedd.
- **Cyfleoedd hyfforddiant:** Creu hyder, gwaith tîm ac arweinyddiaeth.
- **Cyfleoedd:** Clywed eich llais mewn ffordd ystyrlon ac effeithiol.
- **Datblygu eich sgiliau a'ch profiad:** Cewch sgiliau a phrofiad gwerthfawr, y byddwch yn gallu eu defnyddio ar gyfer Bagloriaeth Cymru, CV, neu geisiadau i Addysg Bellach neu Uwch.
- **Dod yn llysgenhadon i bobl ifanc eraill:** Byddwch yn llais i bobl ifanc yn eich ardal drwy gynorthwyo i'w lleisiau gael eu clywed.
- **Tystysgrif cydnabyddiaeth:** am eich cyfraniad yn y rhaglen, yn amodol ar fynychu 80% o gyfarfodydd / gweithgareddau.
- **Costau (teithio):** Am bresenoldeb mewn cyfarfodydd a digwyddiadau ymgysylltu
- **Cyfarfod pobl newydd:** Byddwch yn cyfarfod ag ystod amrywiol o bobl ifanc eraill o ardal Gogledd Cymru, a gweithio ar y cyd â gweithwyr proffesiynol o sefydliadau gwahanol.

## SUT I YMGEISIO - *DEWISWCH UN O'R OPSIYNAU ISOD*

- Ffurflen gais gan yr unigolyn
- Drwy atgyfeiriad 3ydd parti – Os ydych yn gyflogedig neu'n gweithio'n wirfoddol o fewn y sector ieuenctid ac yn adnabod rhywun ifanc a fyddai'n gaffaeliad i'r rhaglen, defnyddiwch y ffurflen atgyfeiriad gweithiwr proffesiynol er mwyn ymgeisio ar eu rhan. Sicrhewch y ceir caniatâd atgyfeirio gan yr unigolyn ifanc (a rhiant/gwarcheidwad os ydynt o dan 18 oed) cyn cyflwyno.

**Preifatrwydd:** Mae eich preifatrwydd yn bwysig i ni. Drwy lenwi ffurflen gais Llysgenhadon Ifanc Gogledd Cymru, rydych yn caniatáu i Heddlu Gogledd Cymru ddefnyddio eich gwybodaeth bersonol i gadw mewn cysylltiad â chi dros gyfnod y prosiect. Os nid yw eich cais yn llwyddiannus, neu os ydych yn penderfynu tynnu eich cais yn ôl, fe wnawn ddileu eich data personol o'n ffeiliau. Os ydych eisiau tynnu eich caniatâd yn ôl ar unrhyw amser, gallwch gysylltu â'r Swyddog Ymgysylltu Ieuenctid ar youthengagementofficer@northwales.police.uk

## BETH SYDD YN DIGWYDD NESAF UNWAITH RWYF YN CYFLWYNO FY NGHAIS?

**Byddwch yn derbyn e-bost yn cadarnhau ein bod wedi derbyn eich cais. Adolygir ceisiadau wedyn. Gwahoddir ymgeiswyr ar y rhestr fer i ddod i drafodaeth anffurfiol am y rôl.**

**Bydd pob ymgeisydd yn cael gwybod am ganlyniad eu cais.**

**Cofiwch: e-bostiwch eich ffurflen at youthengagementofficer@northwales.police.uk**